Online Research @ Cardiff

This is an Open Access document downloaded from ORCA, Cardiff University's institutional repository: https://orca.cardiff.ac.uk/113261/

This is the author's version of a work that was submitted to / accepted for publication.

Citation for final published version:

Hill, Sarah 2017. O'r Bae i'r Bala: Dylanwad Haf Hir 1967. O'r Pedwar Gwynt 4 file

Publishers page:

Please note:
Changes made as a result of publishing processes such as copy-editing, formatting and page numbers may not be reflected in this version. For the definitive version of this publication, please refer to the published source. You are advised to consult the publisher's version if you wish to cite this paper.

This version is being made available in accordance with publisher policies. See
http://orca.cf.ac.uk/policies.html for usage policies. Copyright and moral rights for publications made available in ORCA are retained by the copyright holders.

information services
gwasanaethau gwybodaeth

O'r Bae i'r Bala: Dylanwad Haf Hir 1967

Sarah Hill

Manylion llyfr:

Sarah Hill

San Francisco and the Long 60s

Bloomsbury, 376tt, £26.99, 2016

Pull quote: Nid cariad at yr iaith, neu gariad at y wlad, ond cariad at gariad, er mwyn cariad

Er y sylw diweddar i hanner can mlwyddiannau y 1960au – llofruddiaeth John F Kennedy, perfformiad 'trydanol' cyntaf Bob Dylan, rhyddhau *Sgt. Pepper's Lonely Hearts Club Band* – a'r sylw sydd i ddod i hanner can mlwyddiannau eraill fel chwyldroadau byd-eang 1968, llofruddiaeth Martin Luther King Jr, glanio ar y lleuad, a Woodstock, mae yna un arall a gafodd effaith parhaol. Eleni rydym yn cyrraedd carreg filltir liwgar: pum deg mlynedd ers y 'Summer of Love', neu Haf Cariad, a bathu term. Ac mae'r term a'r syniad o Haf Cariad yn cwmpasu mwy nag un digwyddiad.

I frodor o Galiffornia, mae Haf Cariad yn golygu oes aur fytholegol dinas San Francisco. Ond fel unrhyw chwedl, mae gwirionedd a ffuglen yn gymysg oll gytûn. Hawdd fyddai awgrymu i'r gwrthddiwylliant gael ei ffurfio'n gyfan gwbl yn San Francisco. Roedd y gwreiddiau yno ers blynyddoedd; dyma ddinas, wedi'r cyfan, sydd wastad wedi dathlu'r unigolyn a'i ffordd wahanol o fyw, o'r rhuthr gwyllt am aur ym 1849, i feirdd y bît a'r hipis, a phobl hoyw (er bod *tech bros* Cwm Silicon yn cael llai o groeso y dyddiau hyn). Ond tua'r un pryd, tua diwedd 1966, glaniodd myfyrwyr, crefftwyr, artistiaid, a phobl ddi-waith o bob oed mewn un ardal, sef Haight-Ashbury, gan greu digwyddiad daeargrynol oddi mewn i gymdeithas, a hynny mewn dinas a oedd wedi hen arfer â'r ddaear yn crynu. Llwyddodd yr hipis i greu diwylliant gwrthgyfalafol a llwyddo i wneud hynny mewn ffordd a oedd yn wyrthiol bron

iawn – hynny yw, fe lwyddon nhw i ddarganfod ffordd o gadw'u hunain yn fyw ac yn iach, fwy neu lai.

Erbyn hyn, ystyr 'hipi' i'r rhan helaeth o bobl ledled y byd yw cariad rhydd, LSD, a cherddoriaeth seicedelig – *sex and drugs and rock and roll*, mewn geiriau eraill. Wrth gwrs, roedd pobl ifainc yn cael rhyw cyn 1967, fel y gwelir yn glir ym mhennill cyntaf y gerdd 'Annus Mirabilis' gan Philip Larkin:

> Sexual intercourse began
> In nineteen sixty-three
> (which was rather late for me) –
> Between the end of the 'Chatterley' ban
> And the Beatles' first LP.

Er bod y cysylltiad tybiedig rhwng cerddoriaeth a phechod gwreiddiol wedi bodoli ers tro byd, roedd yr hipis yn adlewyrchu rhywbeth newydd a rhywbeth afreolus yn llygad y cyhoedd. Ac roedd yna adwaith yn erbyn hynny: fe daflai'r heddlu blant yn eu harddegau mas o neuaddau dawns yn ystod cyngherddau roc; sgrechiai penawdau breision: 'New Social Problem: Good Kids on Dope', 'Police Report: San Francisco High School Dope Problem', 'University of California Surprise: Big Campus Dope Case', ac fe aeth y papurau lleol ati i gyhoeddi cyfres o storïau 'I Was a Hippie' gan eu cudd-newyddiadurwyr. Roedd ambell ddadansoddiad, serch hynny, yn fwy pwyllog. Dyma oedd gan Kenneth Rexroth i'w ddweud mewn erthygl dan y pennawd 'Subversive Nature of Culture Revolution' yn y *Chronicle and Examiner* ym mis Gorffennaf 1966:

> What is happening today is … a mass movement, confined largely to people under 35, recruited from all levels of education and economic class. It is self-sustaining where it is not persecuted out of existence, and its creative expression is diffused – democratized. It is not a change in style of painting like cubism, or composing, like 12-tone music, or writing, like Joyce's stream of consciousness, or Eliot's

> dissociation and recombination of the elements of a poem. It is a fundamental change in life attitude.
>
> All you have to do is look at them – these people live differently. Art is a kind of life. […] This is essentially a religious movement, a demand that we as humans live up to our spiritual responsibilities.

Yn ystod cyfnod byr yng nghanol y 1960au roedd yna sylw di-baid i wrth-ddiwylliant – *counterculture* – yr hipis, a oedd wrthi'n newid Haight-Ashbury o ardal fach dawel yng ngorllewin San Francisco i ffau fawr yn llawn anfoesoldeb. Doedd dim ots am agwedd 'ysbrydol' y mudiad; yn ôl y papurau dyddiol, doedd neb yn trafferthu gweithio, neb yn ad-dalu cymdeithas, roedd pobl yn byw'n wyllt yn y strydoedd, roedd y cyffuriau diddiwedd yn arwain plant diniwed dosbarth canol i buteindra a gwaeth, ac roedd y cyngherddau roc wythnosol rhad ac am ddim yn y parc gerllaw yn rhy swnllyd i bawb.

Ond dyna'n union a ddenodd y bobl ifainc i ardal Haight-Ashbury yn y lle cyntaf. Roedd symlrwydd y dymuniad i fyw mewn rhyddid y tu hwnt i ddealltwriaeth gwleidyddion, y rhan fwyaf o newyddiadurwyr, a rhieni ceidwadol plant ifainc yr Unol Daleithiau. Felly pan ddaeth hi'n amlwg bod torf newydd o bobl yn paratoi i heidio i San Francisco yn ystod haf 1967 i ymuno â phlant y blodau, doedd y tadau dinesig ddim yn fodlon paratoi ar eu cyfer, na chydweithio â'r hipis lleol er mwyn sicrhau diogelwch y gymuned. Yn y pen draw, roedd Haf Cariad San Francisco yn anniben, ac roedd nifer o'r gymuned leol eisoes wedi dianc o'r ddinas i fyw'n syml mewn mannau eraill, megis Santa Cruz, Mendocino, a Marin County. Felly beth ydym ni'n ei ddathlu pan fyddwn yn dathlu'r haf hwnnw a oedd yn 'llawn cariad'?

Dechreuodd 1967 yn San Francisco gydag 'aduniad y llwythau', yr 'Human Be-In'. Roedd yn ddigwyddiad mytholegol hyd yn oed ar y pryd: daeth pobl o bob cwr o'r ardal i ymgasglu yn eu miloedd yn Golden Gate Park i rannu'r profiad o *fod* yng nghwmni'i gilydd. Cymysgai'r hen a'r ifainc; chwaraeodd pob band roc cyfoes; roedd hen bîts fel Lawrence Ferlinghetti

ac Allen Ginsberg ar y llwyfan gyda Gary Snyder a Michael McClure; rhoddodd Timothy Leary sêl ei fendith i'r cwbl. Rhannwyd asid 'White Lightning' a gynhyrchwyd yn unswydd ar gyfer y digwyddiad yn labordy brenin yr asid, Owsley Stanley. Wedi i'r haul fachlud, taclusodd yr hipis y parc ac aethant adref. Yn y papur newydd y bore wedyn roedd sôn am y Be-In, ond roedd yna fwy o sôn am y bobl a gafodd eu harestio'n ddi-sail yn strydoedd Haight-Ashbury yn nes ymlaen yn y noson. O hynny ymlaen, doedd yna'r nesaf peth i ddim adroddiadau cadarnhaol am yr hipis yn y papur dyddiol lleol ar wahân i'r adroddiadau am gerddoriaeth, celfyddyd, a ffasiwn. Fel yr ysgrifennodd Kenneth Rexroth: 'Art is a kind of life.'

Ac eto, fe deithiodd y si am y sîn roc yn San Francisco ymhell. Roedd y busnes o greu cyngherddau amlsynhwyraidd – sain, tafluniadau amrywiol, goleuadau hylifol – yn ffordd newydd o ymgorffori'r gerddoriaeth 'seicedelig' leol. A gallai unrhyw gerddoriaeth fod yn seicedelig – yr awyrgylch fyddai'n sicrhau hynny. Gallai unrhyw gynulleidfa fod yn seicedelig hefyd; doedd dim rhaid bod dan ddylanwad cyffuriau i ddeall y profiad cyfannol, cyfranogol. Felly yr hyn oedd ar gael yn San Francisco ymhell cyn haf 1967 oedd y posibilrwydd o ryddid mynegiant – gwisg, dawns, rhyw, ymwybyddiaeth. Digon o syniad Afallonaidd i ddenu pobl o anian debyg at y gymuned wrthddiwylliannol newydd.

Y si am y roc newydd lleol, a'r gymuned o'i gwmpas, a sbardunodd yr ŵyl bop gyntaf un, a gynhaliwyd yn Monterey, tua 120 o filltiroedd i lawr yr arfordir o San Francisco. Parodd am dridiau ym mis Mehefin. A dyna sy'n cymhlethu'r syniad o 'Haf Cariad'. Un o'r bobl y tu ôl i ŵyl Monterey oedd John Phillips, canwr gyda The Mamas & the Papas. Fel modd o harneisio'r cyffro ynglŷn â'r sîn yn San Francisco – heb fod yn rhan ohono ei hun – ysgrifennodd 'San Francisco (Be Sure to Wear Flowers in Your Hair)' fel anthem i hysbysebu Monterey:

> If you're going to San Francisco
> Be sure to wear some flowers in your hair
> If you're going to San Francisco
> You're gonna meet some gentle people there

> For those who come to San Francisco
> Summertime will be a love-in there
> In the streets of San Francisco
> Gentle people with flowers in their hair

Am addewid ffug! Doedd John Phillips ddim yn gwybod unrhyw beth am y gymdeithas yn San Francisco. Ym mhapur newydd *The Oracle*, ar y llaw arall, yn San Francisco, cafwyd hysbyseb a gyhoeddai fel a ganlyn:

> The Haight Ashbury has been practising the warless way of living and loving and creating and exchanging for a new age. New forms, successes and failures and dreams have drawn great attention to the Haight Ashbury. […]
> We feel that every community in America must practice the warless way and communicate among its races and between young and old: CELEBRATE, COMMUNE TOGETHER, PRACTICE FREE GIVING AND RECEIVING IN YOUR OWN CITIES AND COUNTRY-SIDES. If you want to journey to San Francisco you should bring in addition to flowers and bananas: 1) Money for rents and food 2) Sleeping bags and rucksacks … 3) Extra food … 4) Camping equipment for living in wilderness and national parks 5) Warm clothing for very cold foggy San Francisco summer climate 6) Proper identification. SHANTI SHANTI

Roedd y syniad bod ‘gwisgo blodau yn eich gwallt’ yn ddigon o ‘wrthddiwylliant’ yn chwerthinllyd os nad gwaeth. Ac yn San Francisco, yn wir, roedd datganiad o’r fath yn achos pryder. Heb gymorth na chefnogaeth gan y ddinas ei hun, ffurfiwyd The Council for the Summer of Love gan ryw 30 o hipis a phobl yr Haight, i gydweithio ag eglwysi a sefydliadau lleol a pharatoi ar gyfer y pererindod oedd i ddod. Yn ystod y cyfnod hwn sefydlwyd The Haight Ashbury Free Clinic, y clinig cyntaf, a’r unig un yn y ddinas, i drin hipis yn benodol – câi gorddosau, clefydau gwenerol, tetanws, seicosis, a phroblemau gynaecolegol eu trin, a’r cwbl yn rhad ac am ddim. Roedd y clinig yn tarddu o’r angen oddi

mewn i'r gymuned i ofalu am ei haelodau, i greu amgylchfyd saff i bawb. A'r peryg o bererindod anferthol o bobl a oedd yn disgwyl gwasanaethau, roedd y Council a'r Clinic a phob cam arall yn angenrheidiol. A chawson nhw ddim cymorth gan y ddinas hyd yn oed bryd hynny.

Felly, beth oedd Haf Cariad?

Yn sgil y 'gwefrau da' a dywynnai ar ardal Bae San Francisco roedd y to ifanc yn chwilio am eu 'hafau cariad' eu hunain. Wedi'r cwbl, mae'r syniad o 'Haf Cariad' yn apelio'n eang. Heb yr ystyr wleidyddol wreiddiol – 'cariad' a fyddai'n sefyll fel tarian yn erbyn rhagfarn a cheidwadaeth – daw 'haf cariad' yn arwyddair yn union fel yr arwydd heddwch dau fys: mae'n golygu rhywbeth generig heb orfod golygu unrhyw beth penodol. A ledled y byd roedd cerddoriaeth boblogaidd ar drothwy trobwynt: yn Los Angeles newidiodd sŵn acwstig The Mamas & the Papas i synau soniarus a siarp Love, cyn dod i wrthdrawiad â düwch The Doors; yn Efrog Newydd trodd harmonïau syml Simon & Garfunkel yn ddwndwr tanddaearol The Velvet Underground; yn Llundain ildiodd llais gwerin Donovan i gynfas lliwgar Pink Floyd a thrymder ymfflamychol y Jimi Hendrix Experience. Roedd yr arbrofi seicedelig wedi agor y byd pop i bosibiliadau diddiwedd.

Yma yng Nghymru roedd pop dipyn bach ar ei hôl hi ym 1967. Ond cyrhaeddodd pop Cymraeg ei drobwynt pwysig ei hun â digwyddiad a esgorodd ar ei chwedlau ei hun: chwyldro diwylliannol ar lan Llyn Tegid. Ym mytholeg y 1960au yng Nghymru mae Eisteddfod y Bala yn amlwg nid oherwydd yr haul di-baid ond oherwydd perfformiad hollbwysig gan y Blew. Yn wahanol i bob grŵp pop Cymraeg arall y dyddiau hynny, roedd y Blew yn canolbwyntio ar y peth mwyaf elfennol am gerddoriaeth bop gyfoes: roedd y Blew eisiau i'w cynulleidfa ddawnsio, nid meddwl am ddyfodol yr iaith yn unig.

Mae bît eu hunig sengl, 'Maes B', yn annog pobl i ddawnsio, a'i geiriau yn dala'r ffasiwn seicedelig heb os:

Pam na nei di ddod 'da fi i weld y tylwyth teg
A chael clywed cloc y dref yn taro tair ar ddeg

Ond y brif neges, yn syml, yw cariad. 'Dyma ni gyda'n gilydd nawr, a neb ond ni ein dau' – dim i'w cymhlethu, neb i sefyll yn eu ffordd. Mae'r canwr a'i gariad yn dal dwylo, yn dringo'r bryn, yn teimlo'r gwynt yn eu gwallt, yn gweld yr enfys aur, yn wynebu'r byd ynghyd. Pwy fedrai dynnu'n groes i'r fath athroniaeth optimistaidd, a'r pictiwr hwn o iwtopia gyfoes? Fel cân bop o'r 1960au, mae'n dala ysbryd plant y blodau, a'r blodau eu hunain, yn union fel rhai o ganeuon pop gorau 1967 – 'Happy Together', 'Itchycoo Park' neu 'Brown Eyed Girl'. Ac yn annhebyg i ganeuon pop Cymraeg eraill, mae'n cydnabod bod yna elfen gorfforol i'r mwynhad o gerddoriaeth. I fynd yn ôl at y prif syniad uchod – *sex and drugs and rock and roll* – rhaid cydnabod cyn lleied o hynny oedd yn amlwg ym myd pop Cymraeg y 1960au, pan oedd gweld rhywun, a hyd yn oed y syniad o rywun, yn canu'r gitâr yn y sedd fawr yn ddigon i roi harten i ambell ddiacon sych.

Ni ellir gwneud cymhariaeth deg rhwng cymdeithas gelfyddydol-seicedelig San Francisco a'r gymdeithas Gymraeg ym 1967. Er hynny, ac yn ddi-os, roedd yna Gymry a arbrofai gyda chyffuriau rhithbair yn y 1960au. Ac yn sicr roedd rhai Cymry ifainc yn cael rhyw cyn priodi. Ond ni châi'r elfennau hynny o fywyd y to ifanc yr un sylw mewn canu pop Cymraeg. A oedd Dafydd Iwan yn clodfori *tripping the light fantastic*? A oedd pobl yn cael rhyw wrth wrando ar Hogia Llandegai? Cwestiynau i'r oesoedd.

Rhaid clywed 'Maes B' gan y Blew, felly, fel dathliad Cymraeg o Haf Cariad. Nid cariad at yr iaith, neu gariad at y wlad, ond cariad at gariad, er mwyn cariad. Doedd y Maes B llythrennol, ar y pryd, yn ddim ond breuddwyd; cynhelid gigs pop Cymraeg ar y pryd mewn mannau llai rhydd – capeli, neuaddau pentre', gwersylloedd yr Urdd – ac roedd canu 'Maes B' ar faes yr Eisteddfod yn y Bala, 1967, yn ddigwyddiad chwedlonol yn syth bìn oherwydd hynny.

Yn y blynyddoedd ers hynny cafodd Eisteddfod y Bala ei chofio fel 'y Woodstock Cymraeg', a hynny'n rhannol oherwydd y Blew. Ond mae yna ddwy broblem amlwg ynglŷn â hynny: yn gyntaf, mae yna ddryswch cronolegol (cynhaliwyd Woodstock ym 1969, wrth gwrs) ac, yn ail, mae mytholeg Woodstock yn fwy cymhleth na mytholeg Haf Cariad hyd yn oed. Gadewch i ni droi'n ôl at y *trifecta*: doedd dim digon o bobl yn Eisteddfod y Bala i gael cymaint o ryw â'r hipis yn Woodstock; doedd dim asid brown mewn cylchrediad yn y Bala fel yn Woodstock; a dim ond un gìg a chwaraeodd y Blew – nid tridiau o heddwch, cariad, a cherddoriaeth ydoedd, fel y disgrifiwyd. Os rhywbeth, roedd gìg y Blew yn y Bala yn fwy tebyg i un o'r perfformiadau chwedlonol yng ngŵyl Monterey: Otis Redding, efallai, neu Big Brother and the Holding Company. Rhywbeth annisgwyl, angenrheidiol, gwibiol, bythgofiadwy.

Doedd y Blew ddim gyda'i gilydd yn ddigon hir i recordio albwm cyfan, ac ni theimlid y ffasiwn wefr eto yng Nghymru tan berfformiad cyntaf Edward H Dafis ym 1973. A fydd yna goffâd yn Eisteddfod 2017, ar achlysur hanner can mlwyddiant y perfformiad cyntaf o 'Maes B' ar faes Eisteddfod y Bala ym 1967? Mae'n bur annhebyg. Ond yn ôl yn San Francisco mae'r hen hipis wedi bod wrthi'n trefnu digwyddiadau i ddathlu hanner can mlwyddiant Haf Cariad, a hynny'n gwbl aneironig. Ac mae dinas San Francisco – unwaith eto, yn gwbl aneironig – wedi gwrthod cais yr hipis i gynnal cyngerdd fawr rad ac am ddim yn y Golden Gate Park yn rhan o'r dathliadau cyhoeddus. *Plus ça change*.

Yr haf hwn, bydd cynhadledd academaidd yn archwilio Haf Cariad fel testun ffurfiol, yn trafod syniad y '60au hir' – ein hetifeddiaeth o'r cyfnod, a'r ffyrdd y newidiwyd ein byd yn sgil yr hyn a ddigwyddodd hanner can mlynedd yn ôl yn ardal Bae San Francisco. Ac yn hynny o beth gallwch anghofio am y *sex and drugs and rock and roll*; meddyliwch yn hytrach am y 'symudiad gwyrdd', neu'r deiet macrofiotig; meddyliwch gymaint ohonom sydd bellach yn ymarfer ioga, neu'n ymwneud ag ysbrydolrwydd dwyreiniol. Fyddai yna ddim iPhone oni bai bod Steve Jobs wedi cymryd asid. A sut mae cymdeithas wedi newid? Ydyn ni'n derbyn ein hamrywiaeth? *The demand that we as humans live up to our spiritual responsibilities* … Ydyn ni eisiau byw bywydau heddychlon? Pa mor ddieithr, yn wir, yw'r

athroniaeth hipi honno? Cariad er mwyn cariad: dyna neges Haf Cariad, o Fae San Francisco i'r Bala. Ac efallai taw nawr yw'r adeg berffaith i ni gofio hynny.